**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mawrth 2015**

## ALLDRO AMCANOL 2014-2015

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu alldro amcanol amcangyfrifiedig am flwyddyn ariannol 2014-15 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

2 Mae gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig cyn gynted ag y bônt yn digwydd, a hynny er mwyn gallu gosod mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Yn ôl yr arwyddion cyfredol bydd £143,964 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gydag arwydd minws (-).

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r gwariant gwirioneddol hyd at ddiwedd Chwefror, ac yn amcangyfrif y gwariant am fis olaf y flwyddyn.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Mae’r rhan fwyaf o’r tanwariant ar gyflogau yn ymwneud â diffoddwyr tân amser cyflawn, a’r amcangyfrif cyfredol yw £523k. Mae amryw o ffactorau wedi cyfrannu at danwariant ar ddiffoddwyr tân amser cyflawn, ac maent yn cynnwys:-

- nifer o’r staff yn rhan o’r llu ond mae costau eu cyflog llawn wedi eu dileu (*netted off*) yn erbyn tâl salwch neu famolaeth;
- llai o oriau ychwanegol a goramser arall a gynlluniwyd oherwydd tynnwyd hyn yn ôl trwy gydol 2014-15 fel rhan o’r gweithredu nad yw’n streic (ASOS);
- llai o oriau gwaith trwy gydol y flwyddyn oherwydd streiciau.

6 £412k yw’r tanwariant amcangyfrifiedig ar ddiffoddwyr tân y system RDS. Defnyddiwyd rhywfaint o’r gyllideb wreiddiol i dreialu grŵp o ddiffoddwyr hyblyg i wella’r gofal o ran llu, sef diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig.

7 Mae’r 18 o swyddi hyn ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig ar gontract i weithio 21 awr o leiaf yr wythnos, gyda’r disgwyliad gwreiddiol eu bod yn gweithio 30 awr ar gyfartaledd yr wythnos. Fodd bynnag, gan eu bod wedi gorfod ymorol am y prinder oriau ychwanegol a achoswyd gan fod Undeb yr FBU wedi tynnu’n ôl yr oriau ychwanegol fel rhan o’r ASOS, mae’r diffoddwyr tân amser cyflawn gwledig wedi bod yn gweithio hyd at 42 awr yr wythnos. Mae hyn wedi arwain at orwariant yn y gyllideb wreiddiol, ond gwrthbwyswyd hyn gan arbedion yn y gyllideb amser cyflawn.

8 Mae’r tanwariant yng nghyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â’r swydd wag ar gyfer Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.

9 Gellir priodoli’r tanwariant ar Staff Cefnogol i’r ffaith fod nifer o swyddi gwag yn cael eu llenwi’n hwyrach na’r disgwyl.

10 Mae’r gorwariant ar Bensiynau Diffoddwyr Tân oherwydd i daliad ychwanegol am anaf gael ei wneud yn ystod y flwyddyn, ac nad oedd hyn yn hysbys pan osodwyd y gyllideb wreiddiol.

11 Mae’r cynnydd mewn recriwtiaid newydd wedi golygu bod angen darparu mwy o hyfforddiant nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol pan osodwyd y gyllideb. Amcangyfrifir y bydd gorwariant o £29k yn y gyllideb hyfforddiant.

## Safleoedd

11 Ar gyllideb y Safleoedd, bydd tanwariant ar Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Mae'r gostyngiad yn y costau oherwydd newidiadau i werthoedd ardrethol nifer o safleoedd ar ôl comisiynu arbenigwr allanol i gynnal ailwerthusiad. Bu hyn yn fuddiol iawn, gyda rhai ad-daliadau'n cael eu hôl-ddyddio i 2010.

13 Mae safleoedd newydd wedi cael eu prydlesu er mwyn darparu lle i'r adran TGCh a'r Storfeydd. Mae angen lle ar gyfer yr adran TGCh gan fod eu swyddfeydd presennol yn mynd i gael eu dadgomisiynu pan ddaw'r brydles i ben ddiwedd Mawrth 2015. Bydd adleoli'r Storfeydd yn rhyddhau lle storio y mae angen mawr amdano ar gyfer adran y Fflyd, ac yn galluogi adran y Fflyd i ildio'r brydles ar uned arall. Bydd gorwariant ar renti yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol oherwydd y safleoedd ychwanegol, ond pan ddaw'r hen brydlesau i ben bydd costau rhentu yn llai.

14 Amcangyfrifir y bydd gorwariant ar y gyllideb cynnal a chadw oherwydd gwaith cynnal a chadw ychwanegol arfaethedig ar orsaf dân Aberdyfi.

## Cludiant

15 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd £63k o danwariant yn y gyllideb Cludiant. Mae gostau ychwanegol yn gysylltiedig â threialu'r defnydd o ddiffoddwyr tân amser cyflawn gwledig i ddarparu gofal ar nifer o orsafoedd; prynu cyfarpar ychwanegol ar gyfer y fflyd; a mwy o gostau yswiriant. Fodd bynnag, mae'r costau ychwanegol hyn yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion ar danwydd a thrwsio cerbydau gan fod y gweithredu diwydiannol yn effeithio ar y gwariant hwn.

## Cyflenwadau

16 Mae'r Awdurdod wedi recriwtio nifer o ddiffoddwyr tân newydd ar gyfer y System RDS ac oherwydd y cynnydd yn y niferoedd bydd angen prynu cyfarpar amddiffyn personol ychwanegol, ac adlewyrchwyd hyn yn y gorwariant dan y pennawd Gwisgoedd a Golchi Dillad.

17 Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfrifiaduron oherwydd i drwyddedau a chontractau cynnal a chadw  gael eu hailnegodi. Mae hyn wedi arwain at lai o gostau o gymharu â'r gyllideb wreiddiol.

18 Bydd gorwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd bod y costau ar gyfer Firelink yn uwch na'r disgwyl oherwydd tâl annisgwyl mynegai chwyddiant y cytunwyd arno erbyn hyn ar lefel genedlaethol.

19 Bydd gorwariant ar Dreuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth oherwydd y ffordd o drin Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl at ddiben cyfrifyddu. Mae'r orsaf wedi ei sefydlu fel cyfrif masnachu. Mae unrhyw orwariant dros incwm felly yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw. Eleni, amcangyfrifir y bydd hynny'n £22k. Hefyd mae cynnydd yn y cymhwysedd am hawliadau cynhaliaeth oherwydd y pellteroedd ychwanegol sy'n cael eu teithio a'r oriau sy'n cael eu gweithio gan ddiffoddwyr tân sy'n darparu gofal ar orsafoedd gwledig. Disgwylir y bydd gorwariant o £9k yn y gyllideb cynhaliaeth.

20 Bydd gwariant ar brosiectau arbennig megis 'Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys' (JESG) yn llai na'r gyllideb oherwydd fod y lefelau gweithgarwch yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, bydd y tanwariant yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn yr arian grant, fel y dangosir dan y pennawd incwm 'Cynllunio ar gyfer Argyfyngau'.

**Gwasanaethau Cefnogol**

21 Bydd y gost i'r Awdurdod am Reoli Cyfleusterau yn cynyddu eleni. Mae Rheolwr Prosiect ychwanegol wedi ei neilltuo i'r Gwasanaeth Tân ac Achub oherwydd y cynnydd yn y prosiectau cyfalaf a reolir gan y tîm eleni. Fodd bynnag, bydd y cynnydd yn y costau'n cael eu talu gan incwm ychwanegol gan fod y costau hyn yn cael eu codi ar y rhaglen gyfalaf fel ffioedd.

## Cyllido Cyfalaf

22 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â'r rhaglen gyfalaf yn is na'r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel a'r oedi angenrheidiol ar brosiectau Tân ac Ambiwlans Wrecsam a'r aildrefnu arfaethedig ar brosiectau Tywyn a Nefyn. Cafwyd costau llog is hefyd drwy 'fenthyca'n fewnol', pryd y defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r rhaglen yn hytrach na chymryd benthyciadau newydd.

## Incwm

23 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yr incwm fymryn yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Bu gostyngiad derbyniol yn nifer y galwadau gwasanaethau arbennig, ond arweiniodd hyn at gael llai o incwm na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb. Mae gostyngiad yn y grant Cynllunio ar gyfer Argyfyngau yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y costau dan y pennawd yn y gyllideb ar gyfer Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys. Ac fel y crybwyllwyd eisoes, mae incwm o ganlyniad i Ffioedd Cyfalaf wedi cynyddu yn unol â'r gwariant a fu.

## Tanwariant

24 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Medi, cytunodd yr Aelodau i neilltuo £300k o'r tanwariant ar gyfer prynu cerbydau a chyfarpar sydd eu hangen ar gyfer y Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn Gwledig newydd. Adlewyrchwyd hyn yn yr alldro fel cyfraniad i gronfeydd wrth gefn.

25 Cyflwynwyd adroddiad i'r Panel Gweithredol ar 27 Hydref 2014 i roi gwybod i'r Aelodau am y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio. Mae'r contract presennol, a gaffaelwyd yn genedlaethol, yn dod i ben yn Rhagfyr 2016 ac mae'n bosibl y gallai'r gwasanaeth gael costau ychwanegol yn y meysydd canlynol:-

a. Os na ellir cwrdd â'r amserlenni ar gyfer trosglwyddo, efallai y bydd angen ymestyn y contract presennol, a gallai hynny fod yn llawer drutach.
b. Mae'r system gyfredol yn cael ei hariannu'n rhannol drwy grant gan Lywodraeth Cymru ac nid oes sicrwydd y bydd hwn yn parhau.

Mae ambell Awdurdod Tân ac Achub yn darparu hyd at £1 filiwn i ymorol am gostau trosglwyddo. Oherwydd y risgiau hyn cytunodd yr Aelodau i neilltuo £300k mewn cronfa wrth gefn i ymorol am unrhyw gostau ychwanegol a allai fod yn sylweddol. Oherwydd y gallai'r costau fod yn sylweddol uwch, argymhellir bod unrhyw danwariant yn cael ei neilltuo i ymorol am y costau hyn.

26 Mae'r Awdurdod wedi prynu esgidiau tân newydd a'r Camerâu Delweddu Thermol yn gynt na'r disgwyl er mwyn gallu eu caffael ar y cyd â'r ddau Awdurdod Tân ac Achub arall yng Nghymru. Er mwyn gwneud arbedion ar y cyllidebau ariannu cyfalaf yn y dyfodol, argymhellir prynu'r cyfarpar cyfalaf hwn o gyfraniad o'r refeniw. Cost y cyfarpar yw £181k, a chaiff ei ddangos fel cyfraniad i'r cyfalaf.

27 Er mwyn lleihau'r gyllideb refeniw yn y dyfodol, mae'r prydlesau gweithredu sy'n weddill wedi cael prynu allan erbyn hyn felly ni fydd yr Awdurdod yn agored i unrhyw ffioedd prydlesu. Y gost i'r Awdurdod o 'brynu allan' yw £131k, a chan ein bod nawr yn prynu'r cerbydau, gwariant cyfalaf ydyw. Er mwyn gwneud arbedion yn y dyfodol ar gostau ariannu cyfalaf argymhellir bod y cerbydau'n cael eu hariannu gan gyfraniad refeniw.

**Argymhelliad**

28 Gofynnir i'r Aelodau;

(i) neilltuo £312k i ariannu gwariant cyfalaf, er mwyn lleihau ffioedd dyledion yn y dyfodol;

(ii) cytuno bod unrhyw danwariant sy'n weddill yn cael ei neilltuo i ymorol am gostau trosglwyddo Firelink.